

Ordinhad 10

Y Cyngor: Aelodau Cyfetholedig

Corff Cymeradwyo: Y Cyngor

Dyddiad Cymeradwyo: 10 Gorffennaf 2020

Perchennog y polisi: Ysgrifennydd y Brifysgol

Cyswllt y polisi: Geraint Pugh, gop2@aber.ac.uk / 01970 62 2114

Statws y polisi: Diwygiwyd

Fersiwn: 3.0

Dyddiad adolygu diwethaf: Mai 2020

Dyddiad adolygu nesaf: Gorffennaf 2022

ORDINHAD 10

Y CYNGOR: AELODAU CYFETHOLEDIG

1. Aelodau Cyfetholedig

1. Gellir cyfethol unigolion nad ydynt yn aelodau o staff na myfyrwyr y Brifysgol, ar yr amod nad yw cyfanswm aelodaeth y Cyngor yn mynd y tu hwnt i'r hyn a bennwyd drwy'r Ystatud.
2. Bydd pob aelod cyfetholedig yn gwasanaethu yn y swydd am dymor hyd at bedair blynedd.
3. Gall y Pwyllgor Enwebiadau wneud argymhellion i gyfethol aelodau i'r Cyngor, ond cyn hynny bydd yn sicrhau bod yr holl swyddi gwag am Aelodau Annibynnol wedi'u llenwi drwy ddefnyddio'r drefn a bennwyd drwy Ordinhad.

2. Ailbenodi aelodau cyfetholedig

1. Gellir ailbenodi aelodau cyfetholedig ar yr amod na fyddant yn gwasanaethu am fwy na wyth blynedd yn olynol naill ai yn y categori hwnnw neu yng nghategori'r Aelodau Annibynnol.
2. Pan fydd unigolyn wedi gwasanaethu am y cyfnod hiraf a ganiateir fel y'i disgrifir yn 2.1, ni fydd yn gymwys i'w benodi neu i'w phenodi eto yn y categorïau hyn o aelodaeth hyd nes bydd cyfnod o dair blynedd yn dod i ben.
3. Os bydd y cyfnod hiraf a ganiateir yn dod i ben fel y'i disgrifir yn 2.1., bydd yr unigolyn yn dal i fod yn gymwys i wasanaethu ar y Cyngor am dymor arall mewn swyddogaeth arall.
4. Bydd aelodau cyfetholedig sydd yn cael eu symud o'u swydd o dan Ystatud 12(2) (a) (iv) yn gymwys i'w hailbenodi ar ôl cyfnod o ddwy flynedd.